Dysgu proffesiynol i ymarferwyr: Cyngor Abertawe				
Y ddarpariaeth	**Amlinelliad byr**	**Pa safon(au) b/proffesiynol y mae'r dysgu proffesiynol yn cyfrannu ati/atynt?**	**Cynulleidfa**	**Cynulleidfa**
Rhaglen hyfforddi a mentora genedlaethol	Mae cydweithwyr a aeth i'r cwrs ar y dull cenedlaethol 'hyfforddi'r hyfforddwr' yn rhaeadru'r rhaglen i uwch-arweinwyr ac arweinwyr ysgolion canol er mwyn datblygu diwylliant hyfforddi a mentora drwy'r holl ysgolion yng Nghymru a sicrhau y gall pob ymarferydd elwa o'r diwylliant hwn.	• Arweinyddiaeth	I ymarferwyr ar bob lefel sydd am ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn hyfforddi a mentora effeithiol. Mae'n ddelfrydol ar gyfer hyfforddwyr a mentoriaid newydd a phresennol	ALl Abertawe
Mentora a sefydlu	Caiff mentor ei neilltuo i bob pennaeth newydd a phennaeth dros dro yn Abertawe. Bydd y mentor yn arweinydd profiadol o ysgol arall. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd y rôl fentora'n un lled anffurfiol. Hynny yw, byddai disgwyl i'r mentor a'r person sy'n cael ei fentora gwrdd bob hanner tymor. Yn y blynyddoedd dilynol, fel y bo'n briodol, mae'r rôl fentora'n debygol o ddilyn ymagwedd llai ffurfiol, 'os/lle bo angen.' Yn ogystal, bydd penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro'n ymuno â grŵp a arweinir gan bennaeth profiadol. Mae hyn yn darparu amser gwerthfawr i'n harweinwyr newydd drafod materion cyffredin a phryderon a chydweithio ar ffrydiau gwaith cyffredin.	• Arweinyddiaeth	Penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro	ALl Abertawe
Iechyd a Diogelwch (amrywiol)	Mae amrywiaeth o gyrsiau'n cael eu darparu i benaethiaid ac uwch-arweinwyr sy'n amlinellu dyletswyddau, disgwyliadau a chyfrifoldebau. Mae'r cyrsiau'n cynnwys: • Rheolwyr Safle • Rheoli Damweiniau • Asesiad Risg Tân • Iechyd a Diogelwch ar gyfer Uwch-weithredwyr • Cefnogi Iechyd a Lles Gweithwyr	• Arweinyddiaeth	Penaethiaid ac Uwch-arweinwyr	ALl Abertawe

AD (amrywiol)	Mae amrywiaeth o gyrsiau'n cael eu darparu i benaethiaid ac uwch-arweinwyr yn amlinellu dyletswyddau, disgwyliadau a chyfrifoldebau. Mae'r cyrsiau'n cynnwys: • Rheoli Absenoldeb • Recriwtio Mwy Diogel • Disgyblu • Hyfforddiant Colli Swyddi	• Arweinyddiaeth	Penaethiaid ac Uwch-arweinwyr	ALl Abertawe
GDPR	Mae hyfforddiant ar-lein ar GDPR ar gael drwy Gronfa Ddysgu'r cyngor.	• Arweinyddiaeth	Penaethiaid ac Uwch-arweinwyr	ALl Abertawe
Diogelu / Amddiffyn Plant (amrywiol)	Amrywiaeth o gyrsiau sy'n rhoi arweiniad clir i staff sy'n gweithio mewn ysgolion. Mae'r cyrsiau'n cynnwys: • Rôl yr athro plant sy'n derbyn gofal dynodedig • Amddiffyn Plant ac Ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant Lefel 1 • Amddiffyn Plant Lefel 2 a 3 • Hyfforddiant Person Diogelu Dynodedig	• Arweinyddiaeth	Yr holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion	ALl Abertawe
Rheolaeth ariannol	Canllawiau i uwch-arweinwyr ynghylch rheolaeth ariannol yn ysgolion Abertawe.	• Arweinyddiaeth	Penaethiaid ac Uwch-arweinwyr	ALl Abertawe
ADY	Ystod eang o gyrsiau a ddarperir gan Dîm ADY a Chynhwysiad yr ALl. Mae enghreifftiau o'r cyrsiau'n cynnwys y canlynol: • Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn Abertawe • Rôl y Tîm Cymorth Dysgu yn Abertawe • Prif Nodweddion ADYTC • Darpariaeth Ysgolion Arbenigol ALl Abertawe a Chyllid All	• Arweinyddiaeth	Penaethiaid, Uwch-arweinwyr, Cydlynwyr ADY	Ystod lawn o gyrsiau a gyhoeddir mewn dewislen hyfforddiant ac a ddosberthir i ysgolion.

Llywodraethwr (amrywiol)	Darperir amrywiaeth o gyrsiau i lywodraethwyr yn amlinellu dyletswyddau, disgwyliadau a chyfrifoldebau. Mae'r cyrsiau'n cynnwys: • Hyfforddiant i Lywodraethwyr Newydd (gorfodol) • Amddiffyn Plant • Cadeiryddion Llywodraethwyr Newydd (gorfodol) • Clerc i'r Llywodraethwyr newydd • Cynnal a Chadw Adeiladau • Cyllid a Chyllidebau • Presenoldeb (Rôl y Gwasanaeth Lles Addysg) • Deddf ADYTA – Strategaeth ADY Abertawe a'r Camau Gweithredu sy'n ofynnol gan Ysgolion • Iechyd a Diogelwch • Gwaharddiadau • Plant sy'n Derbyn Gofal • Cwricwlwm i Gymru (CiG) • Asesu • Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y CiG • Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y CiG • Hunan-adolygiad • Rolau a chyfrifoldebau • Rheoli Perfformiad Pennaeth	• Arweinyddiaeth	Arweinwyr ysgol a Llywodraethwyr	ALl Abertawe
RADY – Gwella Cyrhaeddiad ar gyfer Pobl Ifanc Ddifreintiedig	Rhaglen a gynlluniwyd i wella disgwyliadau a chyrhaeddiad disgyblion difreintiedig. Mae'r modiwlau hyfforddi'n cynnwys: • Sut beth yw bod yn ddisgybl difreintiedig yn yr ysgol? • Effaith y cwricwlwm • Addasu addysgu a defnyddio strategaethau metawybyddol yn effeithiol • Mynd i'r afael ag anawsterau o ran cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd ysgol • Addysgu ymddygiadau dysgu priodol • Meddwl am ddysgu sy'n gysylltiedig â gyrfa o'r oedran cynharaf	• Arweinyddiaeth • Addysgeg • Dysgu proffesiynol • Cydweithio	Pob arweinydd ac ymarferydd	Trefnwyd yn bennaf gan Partneriaeth. Modiwlau hyfforddi ar-lein, sesiynau hyfforddi clwstwr, cefnogaeth ddilynol gan Ymgynghorwyr Herio Addysg, cynadleddau arfer effeithiol lleol a rhanbarthol.
Gweithdai dylunio cwricwlwm ar gyfer y clwstwr	Cyfres o weithdai dylunio cwricwlwm ar gyfer y clwstwr i gefnogi cydlyniad cwricwlwm a dealltwriaeth a rennir o gynnydd rhwng ysgolion ar draws clwstwr.	• Dysgu proffesiynol • Addysgeg • Cydweithio	Uwch-arweinwyr ac arweinwyr y cwricwlwm	Cyfres o weithdai ar gyfer y clwstwr Mai/Mehefin 2022. Bwriedir cynllunio sesiynau dilynol ar gyfer 2022-23.

Rwydweithiau Uwch-arweinwyr ac arweinwyr y cwricwlwm	Cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith bob hanner tymor i bob uwch-arweinydd/arweinydd cwricwlwm cynradd ac uwchradd, i rannu arfer a dysgu gan ei gilydd mewn meysydd allweddol. O bryd i'w gilydd, mae'r sesiynau'n cynnwys siaradwyr gwadd o ALlau eraill neu fewnbynnau eraill sy'n cysylltu â meysydd allweddol megis arweinyddiaeth neu'r cwricwlwm (siaradwyr rhanbarthol/cenedlaethol neu brif siaradwyr, e.e. Chris Moyse – Improve not Prove)	• Arweinyddiaeth • Dysgu proffesiynol • Addysgeg • Arloesedd	Pob uwch-arweinydd – penaethiaid, dirprwyon, penaethiaid cynorthwyol mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig/UCDau	Cyfarfodydd bob hanner tymor, naill ai'n rhithwir, yn hybrid neu wyneb yn wyneb sy'n hyrwyddo trafodaethau a dysgu parhaus.
Y Gymraeg	Hyfforddi a datblygu staff i gryfhau sgiliau'r Gymraeg a chynnydd o ran dysgu disgyblion. • Cyfarfodydd rhwydwaith tymhorol er mwyn i gydlynwyr Cymraeg yr holl ysgolion rannu arferion, adnoddau a diweddariadau allweddol • Cefnogaeth Siarter Iaith i bob ysgol a datblygu model cefnogi ysgol i ysgol pwrpasol Datblygu ymagwedd strwythuredig tuag at barhad a chynnydd yn y Gymraeg mewn clystyrau cyfrwng Saesneg.	• Dysgu proffesiynol • Addysgeg	Ymarferwyr ac ysgolion y nodwyd bod angen hyfforddiant a chefnogaeth arnynt o ran y Gymraeg.	Cyfnod sabothol, cyrsiau ar-lein. Hyfforddiant wyneb yn wyneb a ddarperir gan Dîm y Gymraeg mewn Addysg.
ACRh/CGM	Mae amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol i ysgolion yn canolbwyntio ar ACRh a CGM. Mae siaradwyr gwadd yn cyfrannu at y sesiynau o bryd i'w gilydd, e.e. Yr Athro Lat Blaylock.	• Dysgu proffesiynol • Addysgeg	Arweinwyr ACRh/CGM.	ALl Abertawe
Cymhwysedd Digidol	Mae amrywiaeth o gyfleoedd DP i ysgolion sy'n canolbwyntio ar gymhwysedd digidol. Gall fod ar sawl ffurf, e.e. sesiynau ADDs pwrpasol ar gyfer ysgolion neu gyfleoedd DP wedi'u trefnu ar draws yr ALl.	• Dysgu proffesiynol • Addysgeg	Arweinwyr cymhwysedd digidol	ALl Abertawe
Llythrennedd/Rhifedd	Cyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer cydlynwyr er mwyn nodi anghenion a chryfderau DP. Bwriedir gwneud gwaith gyda'n partneriaid rhanbarthol i ddarparu DP i fynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd.	• Dysgu proffesiynol • Addysgeg	Pob ymarferydd	ALl Abertawe (ar y cyd â'i ALlau partner)